**CYNNWYS**


**01 | 06** **CYFLWYNIAD**
02 | 03 Crynodeb
04 | 05 Ymrwymiadau a gweithgareddau
06 Datblygiadau'r dyfodol

**07 | 10** **CEFNOGI'R FRENHINES**
07 | 08 Y Deyrnas Unedig a thramor
09 | 10 Y Gwasanaethau Arfog

**11 | 31** **ENTREPRENEUR ELUSENNOL**
11 | 12 £109 miliwn at elusennau
12 | 13 Cyfle a menter
14 | 15 Iechyd
16 | 17 Addysg
18 | 19 Busnes cyfrifol
20 Yr amgylchedd naturiol
21 Duchy Originals
22 | 23 Yr amgylchedd adeiledig
24 | 25 Y celfyddydau

**26 | 29** **HYBU AC AMDDIFFYN**
26 | 29 Tynnu sylw at rai materion

**30 | 42** **INCWM, GWARIANT A STAFF**
30 Cyfrif incwm a gwariant
30 | 32 Incwm ac ariannu
32 | 34 Gwariant
34 | 38 Staff
38 Ymweliadau blynyddol
39 Dadansoddiad o'r costau swyddogol yn ôl categori gwariant
40 Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol
41|42 Portffolios Uwch Reolwyr

# CRYNODEB

Mae'r Adolygiad Blynyddol yma ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2005. Gyda'r cyflwyniad yma, mae pedair adran iddo: un yr un ar gyfer tair prif elfen rôl Y Tywysog, gyda'r bedwaredd yn manylu ar y dull o ariannu ei weithgareddau a'i Swyddfa a chyfrifoldebau ei staff uwch.

Er nad oes gan Etifedd Yr Orsedd rôl gyfansoddiadol sefydlog, mae Tywysog Cymru'n ceisio gwneud cymaint ag sy'n bosib i ddefnyddio'i safle i wella pethau yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Mae ffordd Ei Uchelder Brenhinol o gyflawni hyn yn amrywio dros amser ac yn ôl yr amgylchiadau ond, mewn termau syml, mae'n bosib ei rhannu'n dair rhan.

**Gwneud dyletswyddau brenhinol er mwyn cefnogi'r Frenhines**
Mae hyn yn golygu bod y Tywysog yn cefnogi Ei Mawrhydi Y Frenhines yn ei rôl fel canolbwynt balchder, undod a theyrngarwch y genedl. Mae'n dod â phobl o bob rhan o gymdeithas at ei gilydd, ac yn cynrychioli sefydlogrwydd a dilyniant, tynnu sylw at gyflawni, a phwysleisio pwysigrwydd gwasanaeth a'r sector gwirfoddol drwy annog a gosod esiampl.

**Gweithio fel entrepreneur elusennol**
Ers nifer o flynyddoedd, bu'r Tywysog yn gweithio i geisio adnabod angen elusennol ac i sefydlu a hybu elusennau i gwrdd â'r angen yna. Erbyn heddiw, yr enw ar y grŵp craidd o 16 mudiad yw Elusennau'r Tywysog, ac mae'r grŵp yn cynrychioli menter elusennol fwyaf y DU sy'n cwmpasu nifer o achosion (mae rhestr lawn ar dudalen 52). Y llynedd, fe lwyddodd Ei Uchelder Brenhinol i godi, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, £109 miliwn i gefnogi gwaith yr elusennau yma. Rhyngddyn nhw, mae'r elusennau'n cyflogi 1,400 o bobl, ac mae miloedd o wirfoddolwyr yn cynnig cefnogaeth amhrisiadwy ychwanegol. Mae'r Tywysog hefyd yn gweithredu fel Llywydd neu Noddwr 352 o elusennau eraill.

**Hybu ac amddiffyn traddodiadau, rhinweddau a rhagoriaeth y genedl**
Mae'r gwaith yn cynnwys cefnogi cymunedau gwledig Prydain, hybu goddefgarwch a dealltwriaeth rhwng gwahanol ffydd a chymunedau, a thynnu sylw at gyflawniadau neu faterion a allai, heb ei gefnogaeth, gael ychydig iawn o sylw. Yn y cyswllt yma, mae Ei Uchelder Brenhinol yn gweithredu'n aml fel catalydd sy'n hyrwyddo trafod neu newid. I wneud hyn, mae'n ysgrifennu llythyrau at Weinidogion y Llywodraeth a phobl ddylanwadol eraill, a'u cwrdd, ac yn areithio ac ysgrifennu erthyglau. Wrth wneud hyn, mae bob amser yn gofalu osgoi dadlau gwleidyddol rhwng partïon. Mae'n cyfathrebu â Gweinidogion fel aelod o'r Cyfrin Gyngor ac yn tynnu sylw at faterion y mae pobl yn eu codi yn ystod ei ymweliadau o gwmpas y wlad.

Yn ystod y flwyddyn, fe gyflawnodd Tywysog Cymru 501 o ymrwymiadau swyddogol. Fe aeth i 82 o drefi a 35 o siroedd y DU, ac fe gyflawnodd 103 o ymrwymiadau swyddogol tramor. Roedd ei deithiau tramor i'r Eidal, Twrci, Iorddonen, Sri Lanca, Awstralia, Seland Newydd a Ffiji. Ac fe aeth i Sbaen, Ffrainc, Unol Daleithiau'r America, Bosnia, yr Emiraethau Arabaidd Unedig, yr Almaen a'r Iseldiroedd ar ymrwymiadau swyddogol i hybu buddiannau'r DU. Yn ystod y flwyddyn, fe gwrddodd Ei Uchelder Brenhinol â miloedd lawer o bobl mewn digwyddiadau swyddogol a chael ei weld gan lawer mwy. Fe dderbyniodd neu fe groesawodd bron 7,400 o ymwelwyr swyddogol i Clarence House, Highgrove, Birkhall a chartrefi brenhinol eraill.

Mae manylion ar wefan Y Tywysog
www.princeofwales.gov.uk am ymrwymiadau
swyddogol, areithiau, erthyglau a llawer
o wybodaeth fywgraffyddol a ffeithiol.

# INCWM A GWARIANT

| Am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth | 2005 £000oedd | 2004 £000oedd |
|---|---|---|
| Incwm o Ddugaeth Cernyw | 13,274 | 11,913 |
| Ariannu drwy Grantiau Cymorth ac adrannau'r Llywodraeth | 2,688 | 4,148 |
| **Cyfanswm yr incwm a'r ariannu** | **15,962** | **16,061** |
| Gwariant swyddogol | (8,833) | (10,095) |
| Treth a gwariant personol | (5,226) | (4,406) |
| Gwariant cyfalaf llai dibrisio, ad-daliadau benthyciad a throsglwyddo i gronfeydd wrth gefn | (1,772) | (1,442) |
| **Gwarged arian net** | **131** | **118** |

Yn 2004-05, fe aeth Y Tywysog i dros 191 o sesiynau briffio a chyfarfodydd ffurfiol, ac fe gafodd dros 47,000 o lythyrau gan y cyhoedd yn bennaf. Ysgrifennodd dros 2,300 o lythyrau'n bersonol, gyda'i Swyddfa'n ysgrifennu dros 18,000 arall ar ran Ei Uchelder Brenhinol.

Nid yw'r ffigurau yma'n adlewyrchu'r holl amser gwaith mae'r Tywysog yn ei dreulio ar ddelio â'r swm enfawr o lythyrau a deunydd darllen arall sy'n dod iddo bob wythnos. Ar ben ei sesiynau briffio a chyfarfodydd swyddogol, mae Ei Uchelder Brenhinol yn treulio llawer o amser yn gweithio gydag aelodau'i Aelwyd, ymddiriedolwyr a chyfarwyddwyr ei elusennau ac eraill wrth reoli'i raglen ac arwain yr holl fentrau y mae'n ymwneud â nhw yn eu blaen.

Yn ystod y flwyddyn, fe ddeliodd ei Swyddfa â thua 40,000 o gwestiynau a cheisiadau am wybodaeth gan gyfryngau'r wlad yma a thramor. Fe draddododd y Tywysog 29 o brif areithiau, ac ysgrifennodd dair erthygl mewn papurau newydd. Fe gofnododd ei wefan www.princeofwales.gov.uk 12.6 miliwn o argraffiadau tudalen, dros ddwywaith cyfanswm y flwyddyn flaenorol. Mae manylion am holl ymrwymiadau swyddogol, areithiau ac erthyglau'r Tywysog i'w cael ar y wefan, a llawer o wybodaeth fywgraffyddol a ffeithiol.

Fe gododd incwm Dugaeth Cernyw o 11% yn 2004-05. I raddau helaeth, fe gafodd yr incwm ei ddefnyddio i helpu i godi'r £109 miliwn a aeth at waith elusennol sydd eisoes wedi'i grybwyll. Roedd y cynnydd o 11% yn adlewyrchu'r ffaith i'r Ddugaeth gael eiddo masnachol yn ystod 2003-04 oedd yn rhoi mwy o elw, ac adolygiadau ar renti eiddo masnachol. Mewn termau real, fe aeth rhent y rhan fwyaf o eiddo amaethyddol i lawr. Aeth arian o Grantiau Cymorth a gwariant swyddogol i lawr yn ystod 2004-05 gan fod costau eithriadol wedi bod yn 2003-04 ar ailwampio Clarence House. Mae gwybodaeth am sut mae'r incwm o Ddugaeth Cernyw'n cael ei wario i'w gweld ar dudalennau 38 i 49.

Er mwyn datblygu'r un mor gyflym â gweithgareddau swyddogol ac elusennol Tywysog Cymru, fe gafodd ei dîm o uwch reolwyr ei gryfhau yn ystod y flwyddyn drwy benodi Meistr yr Aelwyd a Thrysorydd newydd. Fe gafodd Ysgrifennydd Preifat rhan amser ei benodi i helpu i gynghori Tywysog William a Thywysog Harry ar eu gyrfaoedd, eu hymrwymiadau swyddogol a'u gweithgarwch elusennol yn y dyfodol.

Yn olaf, diweddglo'r flwyddyn oedd cyhoeddi ar 10 Chwefror 2005 fod Tywysog Cymru'n dyweddïo â Mrs Camilla Parker Bowles. Bu'r briodas ar 9 Ebrill, diwrnod oedd yn cyfuno seremoni sifil breifat yn y Guildhall Windsor a Gwasanaeth mwy cyhoeddus o Weddi ac Ymgysegriad yng Nghapel San Siôr, Castell Windsor. Fe ddaeth Ei Mawrhydi Y Frenhines, Dug Caeredin, nifer o aelodau'r Teulu Brenhinol a bron 800 o aelodau eraill o'r teulu a ffrindiau i'r gwasanaeth. Diweddglo'r diwrnod oedd derbyniad yn Ystafelloedd Swyddogol Castell Windsor, gyda'r Frenhines yn llywyddu. Ar ôl yr achlysur, aeth eu Huchelderau Brenhinol i dreulio'u mis mêl yn Birkhall, Royal Deeside, yn yr Alban.

# Ymrwymiadau a gweithgareddau

Yn 2004-05, fe gyflawnodd Tywysog Cymru gyfanswm o 501 o ymrwymiadau swyddogol, a 103 o'r rheini dramor. Ond rhan fach o'r stori yw'r ystadegau moel. Mae'r enghreifftiau o ddigwyddiadau a gweithgareddau sy'n dilyn yn cynnig darlun llawnach o hyd a lled gwaith Ei Uchelder Brenhinol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Maen nhw wedi'u rhestru'n gronolegol.

### Mynd i achlysur coffáu'r 60 mlynedd ers D-Day

Ym Mehefin 2004, fe wyliodd y Tywysog bron 500 o filwyr yn parasiwtio i Ranville, Ffrainc fel teyrnged i'w rhagflaenyddion a laniodd yn Normandi fel rhan o oresgyniad y Cynghreiriaid. Fe gwrddodd Ei Uchelder Brenhinol, sy'n Brif Gyrnol Catrawd y Barasiwtwyr, â chyn-filwyr glaniadau D-Day ac fe sefydlodd y Tywysog yr Ardd Gofio Brydeinig yng Nghaen.

### Araith mewn cynhadledd ar ofal canser dan arweiniad Sefydliad Tywysog Cymru er Iechyd Integredig (*The Prince of Wales's Foundation for Integrated Health*) a phedair o brif elusennau iechyd y DU

Mewn cynhadledd ym Mehefin 2004 yn Llundain a gafodd ei threfnu gan y Sefydliad er Iechyd Integredig a phedair elusen y mae'r Tywysog yn eu noddi: Gofal Canser Marie Curie, Gofal Canser Macmillan, Mudiad *Breakthrough* er Canser y Fron a Chanolfan Cymorth Canser Bryste, fe alwodd y Tywysog ar i fwy o ymchwil gael ei wneud i fanteision therapïau amgen ar gyfer cleifion canser. Wrth annerch 200 o weithwyr y proffesiynau iechyd, fe anogodd Ei Uchelder Brenhinol y broses o integreiddio dulliau confensiynol ac amgen o drin canser.

### Ymweliad ag ysgol yn Swydd Gaerloyw i hyrwyddo bwyta'n iach i blant a defnyddio ffynonellau lleol o fwyd

Ym Mehefin 2004, fe arweiniodd y Tywysog ymweliad A Wêl a Gred (*Seeing is Believing*) gan grŵp o arweinwyr addysg a phrif weithredwyr awdurdodau lleol ag Ysgol Brimsham Green yn Yate, ger Bryste. Arweiniodd y Tywysog yr ymweliad yn rhinwedd ei waith fel Llywydd Busnes yn y Gymuned (*Business in the Community*), a'i bwrpas oedd tynnu sylw at fanteision defnyddio bwydydd ffres o ansawdd da o ffermydd a chyflenwyr lleol wrth baratoi prydau bwyd ysgol. Naw mis yn ddiweddarach, fe lwyddodd Jamie Oliver i wneud pwysigrwydd gwella bwyd ysgol yn bwnc trafod cenedlaethol yn ei raglen deledu "Jamie's School Dinners".

### Derbyniad yn Clarence House i yrwyr tacsis Llundain

Ym mis Gorffennaf 2004, fe gynhaliodd y Tywysog dderbyniad yn Clarence House i yrwyr tacsis Llundain. Cyn y derbyniad, fe aeth Ei Uchelder Brenhinol i un o Iochesau'r gyrwyr yn Sgwâr Hanover i gael cwpanaid o de gyda rhai o'r gyrwyr. Fe aeth yn ôl i Clarence House mewn cab gyda John Sheen wrth y llyw. Trefnodd y Tywysog yr ymweliad a'r derbyniad er mwyn talu teyrnged i waith elusennol nifer o yrwyr, ac i ddiolch iddyn nhw am eu cyfraniad at fywyd y Brifddinas.

### Agoriad Ffynnon Goffa Diana, Tywysoges Cymru, yn Hyde Park

Ym mis Gorffennaf 2004, fe aeth y Tywysog a'i feibion y Tywysogion William a Harry gyda'i Mawrhydi Y Frenhines, Dug Caeredin ac aelodau o'r teulu Spencer i achlysur agor ffynnon yn Hyde Park, Llundain, i goffáu Diana, Tywysoges Cymru. Mewn heulwen odidog, fe dalodd y Frenhines deyrnged i'r Dywysoges a'r effaith a gafodd hi ar fywydau cymaint o bobl. Ar ôl yr agoriad, fe aeth Ei Uchelder Brenhinol gyda gweddill ei deulu i gwrdd pobl oedd wedi dod i'r achlysur.

### Ymweliad â Sabhal Mor Ostaig ar yr Ynys Hir (Skye) i ddathlu diwylliant yr iaith Aeleg yn yr Alban a thramor

Ym mis Medi 2004, siaradodd y Tywysog am ei obeithion o gadw iaith Aeleg yr Alban yn fyw. Yn rhinwedd ei waith fel Noddwr Sabhal Mor Ostaig, roedd yn ymweld ag unig goleg y wlad sy'n bodoli'n unswydd i gefnogi'r iaith Aeleg. Dywedodd Dug Rothesay (sef teitl y Tywysog yn yr Alban) fod yr iaith Aeleg yn cyfoethogi bywyd yr Alban yn sylweddol. Wrth ganmol gwaith y coleg, nododd ei fod yn hanfodol yn y broses o addysgu pobl ar draws y byd am ieithoedd lleiafrifol.

### Dathlu pen 10 mlynedd ers sefydlu Rhaglen Busnes a'r Amgylchedd (*Business and the Environment*) y Tywysog yn Neuadd Wledda Whitehall

Wrth agor ei anerchiad i dros 400 o arweinwyr busnesau ac amgylcheddwyr ym mis Medi 2004, pwysleisiodd y Tywysog fod angen i fwy o'r gymuned fusnes fabwysiadu datblygu cynaliadwy. Cyflwynodd Ei Uchelder Brenhinol y Prif Weinidog, Mr Tony Blair, ac aeth yntau ymlaen i rybuddio yn ei araith ar newid yn yr hinsawdd am "drychineb" posib pe na bai llywodraethau o amgylch y byd yn gweithio gyda'i gilydd i daclo problem cynhesu byd-eang.

### Dathlu 21 mlynedd o Raglen Fusnes *The Prince's Trust*

Ym mis Tachwedd 2004, fe ddywedodd Ei Uchelder Brenhinol wrth gynhadledd tra'r oedd Canghellor y Trysorlys, Mr Gordon Brown, yn y gynulleidfa, fod Rhaglen Fusnes *The Prince's Trust* wedi ehangu "y tu hwnt i'w ddisgwyliadau eithafaf" ers ei sefydlu yn 1983. Yn ystod y 21 mlynedd ers ei sefydlu, fe helpodd y rhaglen dros 60,000 o bobl ifanc i fyd busnes gan greu 100,000 o swyddi newydd.

### Mynd i agoriad Canolfan Mileniwm Cymru ym Mae Caerdydd

Ym mis Tachwedd 2004, fe aeth Ei Uchelder Brenhinol gyda'i Mawrhydi Y Frenhines i noson o gerddoriaeth, dawns a barddoniaeth wrth ddathlu agoriad Canolfan newydd Mileniwm Cymru ym mhrifddinas y Dywysogaeth. Wrth adeiladu'r adeilad £106 miliwn, fe gafodd deunyddiau traddodiadol Cymreig fel llechi a thywodfaen eu defnyddio. Tirwedd y wlad a'i threftadaeth ddiwydiannol a diwylliannol oedd ysbrydoliaeth y dyluniad trawiadol.

### Ymweliadau â Boscastle, Cernyw, i gynnig cefnogaeth i'r pentref ar ôl i lifogydd ei ddifrodi yn Awst 2004

Ym mis Chwefror 2005, fe aeth y Tywysog am yr ail dro i bentref Boscastle yng Nghernyw i weld gwaith atgyweirio'r difrod a achosodd y llifogydd ar ôl y stormydd a sgubodd drwy'r gymuned yn ystod haf 2004. Bu ar daith o gwmpas Boscastle ddyddiau ar ôl llifogydd fis Awst i gynnig ei gefnogaeth i ddioddefwyr ac i ddiolch i'r gwasanaethau argyfwng am arbed gymaint o fywydau

### Ymweliad â Batticaloa yn Sri Lanca i weld effeithiau trychineb y tsunami

Ym mis Chwefror 2005, fe aeth y Tywysog ar ymweliad byr â Sri Lanca ar ei ffordd i Awstralia ar ran gyntaf taith dramor yr Hydref. Fe welodd drosto'i hun y difrod mawr a achosodd tsunami Gŵyl San Steffan. Yn ystod ei ymweliad, fe gwrddodd Ei Uchelder Brenhinol â gwirfoddolwyr y *Red Cross* oedd yno i helpu gyda'r gwaith clirio. Siaradodd hefyd â physgotwyr lleol ardal Batticaloa i ddysgu sut roedden nhw'n ceisio ailadeiladu'u cymunedau yn sgil y tsunami. Cafodd y Tywysog wybod hefyd am y gwaith oedd yn cael ei wneud i helpu i adfer yr economi lleol. Ar ôl y trychineb, fe gollodd o leiaf 400,000 o bobl eu gwaith, yn bennaf yn y diwydiant pysgota ac mewn amaethyddiaeth a thwristiaeth.

### Ymweliad ag unig gytref fridio'r albatros ar dir mawr y byd

Ym mis Mawrth 2005, fe aeth Ei Uchelder Brenhinol i ymweld â chytref fridio'r albatros yn ystod ei daith i Seland Newydd. Byth ers iddo weld albatrosod yn hedfan ochr yn ochr â'i long yn ystod ei gyfnod yn y Llynges, mae'r adar mawreddog yma wedi hudo'r Tywysog. Gan fod perygl nawr i sawl rhywogaeth ddiflannu oherwydd dulliau diwydiannol o bysgota, fe fu'n ymgyrchu i warchod yr albatrosod rhag cael eu lladd yn ddianghenraid. Yn ystod ei ymweliad, fe draddododd y Tywysog araith a gafodd lawer o sylw, gan ddisgrifio cyflwr yr aderyn.

# DATBLYGIADAU'R DYFODOL

### Tywysog Cymru

Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, bydd Ei Uchelder Brenhinol yn para i weithio ar nifer o faterion allweddol. Bydd yn canolbwyntio'n arbennig ar yr amgylchedd, y Lluoedd Arfog (yn arbennig o ran dathlu pen 60 mlynedd ers Dydd VE/VJ), y Gymanwlad, materion gwledig ac amaethyddol, iechyd integredig ac adfywio trefi, yn cynnwys cadw ac ailddefnyddio treftadaeth adeiledig y genedl. Bydd Duges Cernyw yn cefnogi gwaith Ei Uchelder Brenhinol, gan fynd gydag e ar nifer o'i deithiau a'i ymweliadau, gartref a thramor. Fe fydd hi hefyd yn cyflawni'i hymrwymiadau'i hun yn cynnwys cefnogi elusennau fel y Gymdeithas Genedlaethol er Osteoporosis y mae hi'n gweithredu fel ei Llywydd.

### Rheoli

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, daeth y broses o aildrefnu a chryfhau Swyddfa Tywysog Cymru bron iawn i ben. Gyda datblygiad y Swyddfa Elusennau'n dal i fynd yn ei flaen, mae rhagor o staff wedi cael eu cyflogi i helpu i gefnogi gweithgareddau swyddogol Ei Uchelder Brenhinol, yn cynnwys Meistr yr Aelwyd, Trysorydd newydd ac Ysgrifennydd Preifat rhan amser ar gyfer y Tywysogion William a Harry. Yn ystod 2005-06, fe gafodd Ysgrifennydd Preifat Cynorthwyol llawn amser ei benodi ar gyfer Duges Cernyw, a Chynorthwyydd Arbennig i'r Ysgrifennydd Preifat i fod â gofal arbennig o ddydd i ddydd dros y Gymanwlad ac amrywiaeth ethnig. Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud yn ystod y flwyddyn yma hefyd i ddiweddaru systemau technoleg gwybodaeth y Swyddfa. Bydd adolygiad yn cael ei wneud o weithgarwch ym maes cyfrifold cymdeithasol corfforaethol yr Aelwyd (yn cynnwys y defnydd o ynni), ac mae astudiaeth ar waith

sydd â'r nod o wneud rhagor o welliannau i bolisïau a dulliau gweithredu ym maes personél.

### Elusennau

Dros y flwyddyn ddiwethaf, fe gafodd y grŵp sy'n cynnwys 16 mudiad elusennol craidd Ei Uchelder Brenhinol enw penodol – Elusennau'r Tywysog (*The Prince's Charities*). Datblygodd y Swyddfa Elusennau bolisïau a dulliau gweithredu newydd ar gyfer y grŵp mewn meysydd allweddol fel rheoli corfforaethol, codi arian, cynllunio a chyfathrebu. Blaenoriaethau 2005-06 fydd:

- gweithredu'r polisïau a'r dulliau gweithredu yma
- parhau i helpu'r elusennau wrth benodi staff allweddol (yn cynnwys ymddiriedolwyr) a datblygu strategaeth ar gyfer y tymor hiraf
- datblygu mentrau elusennol newydd fel Menter y Tywysog yn India (*The Prince's Initiative in India*)
- helpu i arwain mentrau presennol yn eu blaen, e.e. yr Ysgol Haf Addysg (*Education Summer School*).

### Cyfathrebu

Ar ôl penodi trydydd Swyddog y Wasg y llynedd, mae'r tîm Cyfathrebu wedi tyfu i naw aelod. Canolbwynt 2005-06 unwaith eto fydd:

- esbonio gwaith Tywysog Cymru drwy wneud mwy o ddefnydd o'r cyfryngau darlledu
- gwneud mwy o waith gyda chylchgronau a phapurau newydd lleol
- datblygu'r cyfryngau mewnol fel yr Adolygiad yma a'r wefan swyddogol www.princeofwales.gov.uk.

Mae Swyddfa'r Wasg yn dal i fod wedi'i hymrwymo i fabwysiadu dull agored a theg o ran ei chysylltiadau â'r cyfryngau, ac i drin pob ymholiad yn brydlon ac mewn ffordd broffesiynol